## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (BRECON ROAD, SIR FYNWY, HYD AT Y FFIN SIROL YNG NGLANGRWYNE, POWYS) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40 neu gerllaw iddi ar Brecon Road rhwng y Fenni a'r ffin sirol yng Nglangrwyne, yn Sir Fynwy a Phowys.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

1) gwahardd pob cerbyd, pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gorllewin o ganolbwynt y ffordd fynediad i safle Carafanau a Gwersylla Pyscodlyn Farm hyd at bwynt 200 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Glangrwyney Road.

2) gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 30 mya ar y darn o'r A40 a ddisgrifir uchod. Bydd y terfyn cyflymder 40 mya neu 30 mya yn weithredol yn ysbeidiol yn ystod oriau'r dydd a'r nos yn ystod cyfnodau'r gwaith pan fydd y system rheoli traffig yn weithredol.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 20:00 o'r gloch ar 7 Medi 2026 ac yn dod i ben am 06:00 o'r gloch ar 31 Mawrth 2027, neu pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o ben gorllewinol y darn o'r ffordd sydd ar gau yw ar hyd yr A40 tua'r gogledd-orllewin i Grucywel, yr A4077 tua'r de-ddwyrain tuag at Gofilon a'r A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd tua'r dwyrain i ailymuno â'r A40 yn y Fenni. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin o ben dwyreiniol y darn o'r ffordd sydd ar gau.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau â therfyn pwysau dros 7.5 tunnell sy'n teithio tua'r dwyrain o ben gorllewinol y darn o'r ffordd sydd ar gau yw ar hyd yr A40 tua'r gogledd-orllewin tuag at Aberhonddu, yr A470 tua'r de tuag at Ferthyr Tudful, yr A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd tua'r dwyrain a'r A4143 tua'r gogledd i ailymuno â'r A40 yn y Fenni. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau dros 7.5 tunnell sy'n teithio tua'r gorllewin o ben dwyreiniol y darn o'r ffordd sydd ar gau.

## THE A40 TRUNK ROAD (BRECON ROAD, MONMOUTHSHIRE, TO THE COUNTY BOUNDARY AT GLANGRWYNEY, POWYS) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road on Brecon Road between Abergavenny and the county boundary at Glangrwyney, in the Counties of Monmouthshire and Powys.

The effect of the Order will be to temporarily:

1) prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the trunk road that extends from a point 20 metres west of the centre point of the access to Pyscodlyn Farm Caravan and Camping site to a point 200 metres east of the centre point of its junction with Glangrwyney Road.

2) impose either a 40 mph or 30 mph speed limit on the length of the A40 described above. The 40 mph or 30 mph speed limit will operate intermittently during, daytime and nighttime hours during the work periods when traffic management is in operation.

The temporary prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 20:00 hours on 7 September 2026 and end at 06:00 hours on 31 March 2027, or when the temporary traffic signs are permanently removed.

The alternative route for eastbound traffic from the western extent of the closure will be via the A40 north-westbound to Crickhowell, A4077 south-eastbound towards Govilon and eastbound A465 Heads of the Valley Road to re-join the A40 at Abergavenny. Vice versa for westbound traffic from the eastern extent of the closure.

The alternative route for eastbound vehicles with a weight limit over 7.5 tonnes from the western extent of the closure will be via the A40 north-westbound towards Brecon, A470 southbound towards Merthyr Tydfil, eastbound A465 Heads of the Valley Road and northbound A4143 to re-join the A40 at Abergavenny. Vice versa for westbound vehicles over 7.5 tonnes from the eastern extent of the closure.

Local access will be available along the A40 Brecon Road eastbound and westbound, but only up to the points of closure specified. Access to properties within the area of road closure will be maintained at all times via escort through the works.

Although the Order is only expected to operate during

Bydd mynediad lleol ar gael ar hyd yr A40 Brecon Road tua'r dwyrain a thua'r gorllewin, ond dim ond hyd at y pwyntiau cau a bennir. Sicrheir mynediad ar bob adeg i eiddo o fewn yr ardal lle y mae'r ffordd ar gau drwy hebrwng cerbydau drwy'r gwaith.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn i unrhyw waith a ailamserlennir ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before the start of any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government